

## **Rhanberchnogaeth – Cymru a Rhentu i Berchnogi – Cymru Hysbysiad Preifatrwydd y Wefan**

### **Ynglŷn â'r hysbysiad hwn**

Os byddwch yn dewis cofrestru eich diddordeb ar gyfer cartrefi newydd a fydd ar gael yn y dyfodol dan gynlluniau **Rhanberchnogaeth – Cymru** neu **Rhentu i Berchnogi – Cymru**, bydd angen ichi roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru amdanoch – er mwyn inni gysylltu â chi pan fydd cartrefi newydd ar gael yn y lleoliad a ddewiswyd gennych. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y byddwn yn casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth honno.

### **Pa fath o wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu?**

Bydd y math o wybodaeth y bydd angen ichi ei roi inni yn caniatáu inni gysylltu â chi i roi'r wybodaeth y byddwch wedi'i dewis i'w derbyn. Yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu gennych fydd eich enw, cyfeiriad eich e-bost, ac ym mha ardal awdurdod lleol yr hoffech brynu cartref ynddi.

### **Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol?**

Ni fyddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth i gysylltu â chi drwy e-bost i roi gwybod ichi fanylion am gartrefi newydd dan gynlluniau **Rhanberchnogaeth – Cymru** a/neu **Rhentu i Berchnogi – Cymru** yn ardal yr awdurdod lleol a ddewiswyd gennych. Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth at unrhyw ddiben arall.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i roi gwybod eich manylion cyswllt ar y ffurflen berthnasol.

### **Â phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?**

Bydd y data sy'n cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw'n ddiogel ac ni fydd yn cael eu rhannu ag unrhyw un arall.

### **Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

Os byddwch yn dewis llenwi'r ffurflen i roi gwybod eich manylion cyswllt, ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth at unrhyw ddiben arall. Byddwn yn dileu eich gwybodaeth ar ôl 3 blynedd.

### **Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth bersonol?**

O dan gyfraith diogelu data, rhaid inni roi gwybod y sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Y sail gyfreithiol ar gyfer yr wybodaeth y byddwn yn gofyn amdani yw Erthygl 6 (a) o Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol sy'n datgan

- bod yr unigolyn sy'n destun y data wedi cydsynio i'w ddata personol gael eu prosesu at ddibenion penodol.

### **Beth yw eich hawliau?**

Mae gennych hawliau penodol mewn perthynas â'ch gwybodaeth. Mae gennych yr hawl i ofyn inni alluogi ichi weld eich gwybodaeth bersonol eich hunan. Yn ychwanegol, mae gennych yr hawl i ofyn inni wneud y canlynol:

- sicrhau bod unrhyw wybodaeth anghywir yr ydym yn ei chadw amdanoch yn cael ei chywiro;
- sicrhau bod gwybodaeth amdanoch yn cael ei dileu o dan amgylchiadau penodol;
- sicrhau ein bod yn rhoi terfyn ar ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol;  
a
- sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei darparu i chi ar ffurf fformat cludadwy.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y ffordd y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth, neu os hoffech ragor o fanylion neu os hoffech gwyno am y ffordd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth, mae croeso ichi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

Os na allwn ddatrys eich cwyn, mae gennych yr hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheolydd statudol ar gyfer materion diogelu data. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy e-bostio <https://ico.org.uk/concerns/>.

### **Cysylltwch â ni**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r hysbysiad hwn, neu os hoffech arfer unrhyw hawl sydd gennych, mae croeso ichi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)